



Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau



Mudo i VOIP:
dangos tystiolaeth o ddefnydd defnyddwyr
o linellau tir ac ymwybyddiaeth o fudo

Cynnwys

Rhagair	2
Dull Gweithredu	4
Prif Ganfyddiadau	4
Dyfeisiau a ddefnyddir i wneud galwadau yn y cartref	6
Dyfais a ffefrir i wneud galwadau yn y cartref	6
Defnydd o linell dir	6
Dyfeisiau wedi'u cysylltu â llinell dir	6
Ymwybyddiaeth o VOIP	6
Ymwybyddiaeth o VOIP ymysg pobl sy'n helpu eraill	6
Toriadau yn y cyflenwad trydan - nifer a hyd	7
Galwadau yr oedd angen eu gwneud yn ystod toriad diweddar yn y cyflenwad trydan	7
Pa ddyfais y byddai pobl yn ei defnyddio i wneud galwad mewn argyfwng	8
Rhesymau dros ddewis defnyddio'r ddyfais honno mewn argyfwng	8
Pwy fyddai pobl yn ei ffonio mewn argyfwng	8
Profiad defnyddwyr hŷn	8
Profiad defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig	8
Yr hyn y mae pobl eisiau ei wybod am VOIP	8
Cwestiynau a ofynnwyd i rai sy'n symud i VOIP	8

Rhagair

Rôl y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau fel y panel statudol ar gyfer y sector cyfathrebiadau, yw cynrychioli defnyddwyr yn y sector hwn - yn enwedig y rheini y mae eu lleisiau fel arall yn llai tebygol o gael eu clywed gan lunwyr polisiâu a'r diwydiant.

Erbyn 2025, mae BT yn bwriadu cwblhau'r gwaith o ddisodli'r Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus (PSTN) â Phrotocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP), sy'n defnyddio band eang i ddarparu cysylltiad digidol. Mae darparwyr llinellau tir eraill yn dilyn amserlenni tebyg.

Rydym yn bryderus iawn bod lefel ymwybyddiaeth defnyddwyr o oblygiadau'r mudo i VOIP yn dal yn is o lawer na'r hyn sydd ei angen er mwyn i'r newid i'r digidol yn 2025 gael ei gyflawni heb risg sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd. Gallai hyn gynnwys y posibilrwydd o bobl yn methu â gwneud galwadau mewn sefyllfaedd sy'n peryglu bywyd yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan os yw eu darparwr wedi methu â nodi eu bod yn dibynnu ar eu llinellau tir, neu os nad yw pobl wedi tynnu sylw eu darparwr at hyn. Er y bydd symud i VoIP yn dod â budd cyffredinol sylweddol i ddefnyddwyr, mae angen delio â'r broses yn ofalus i ddiogelu defnyddwyr gan na fydd ffonau sydd wedi'u cysylltu â VoIP yn gallu gwneud na derbyn galwadau os bydd toriad yn y cyflenwad trydan.

Mae hyn yn codi materion diogelwch penodol i rai defnyddwyr - boed yn unigolion sy'n dibynnu ar eu llinell sefydlog ar gyfer gwasanaethau teleofal ac ati, neu'n gymunedau sy'n byw mewn amodau mwy bregus - er enghraifft mewn ardaloedd gwledig lle nad oes signal symudol cryf.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol bod batriâu wrth gefn i gynnal pŵer i linell ffôn VOIP yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan yn para am awr. Yn dilyn Storm Isha ym mis Ionawr, adroddodd y BBC fod toriadau mewn pŵer wedi effeithio ar tua 53,000 o gartrefi ar anterth y storm yng Ngogledd Iwerddon. Roedd dros 40,000 yn dal heb bŵer y bore canlynol, a 24 awr yn ddiweddarach adroddwyd mai dim ond tua hanner y rheini a gollodd eu cyflenwad oedd wedi adfer eu pŵer. Yn yr Alban, o'r bron i 89,000 o gwsmeriaid a fu heb bŵer roedd 14,800 o gwsmeriaid dal i fod all-lein y diwrnod canlynol, ac yng ngogledd-orllewin Lloegr roedd 8,500 o gwsmeriaid yn dal heb bŵer. Yn ôl y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni (ENA) roedd oddeutu 30,000 o eiddo heb bŵer ledled Cymru, Lloegr a'r Alban ar fore 22 Ionawr.

Mae'n fwyfwy amlwg bod stormydd sy'n effeithio ar y DU yn dod yn gryfach, yn fwy cyffredin ac yn fwy aml nag erioed o'r blaen. Dywedodd y Belfast Telegraph fod swyddogion PSNI, mewn ychydig dros gyfnod o 10 awr, rhwng 3:30pm a 2am, wedi delio â dros 1,300 o alwadau - tua 600 yn ymwneud â'r storm. Mae cyfathrebu yn hanfodol yn ystod sefyllfaedd peryglus.

Er bod ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cynyddu, mae diffyg dealltwriaeth eang o oblygiadau'r VOIP yn her gyfathrebu sylweddol a brys, ac mae'n ymddangos mai darparwyr llinell dir sydd yn y sefyllfa orau i arwain arni. Mae hyn yn bwysig. Os yw pobl yn ymwybodol o'r goblygiadau, gallant rannu unrhyw ofynion gwasanaeth

ychwanegol sydd ganddynt â'u darparwr cyfathrebiadau, er mwyn i'w darparwr allu eu helpu yn y ffordd orau bosibl - a rhoi gwybodaeth ddibynadwy iddynt i'w hamddiffyn rhag sgamiau.

Mae defnyddwyr sy'n byw yn rhannau mwyaf anghysbell a gwledig y DU eisoes yn profi sawl haen o anfantais wrth ddefnyddio gwasanaethau cyfathrebu - fel yr amlygwyd yn y fideos hyn o'n hymchwil ddiweddaraf. Mae penderfyniad rhwydweithiau symudol i ddiffodd eu rhwydweithiau 3G yn gwaethygu'r mater hwn. Mae oedi gyda'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir, ac er bod darparwyr symudol wedi ymrwmo i gynnig darpariaeth 4G sy'n cyfateb yn fras cyn diffodd 3G, mae'n dal yn bosibl y gallai rhai lleoliadau heb 4G ddod yn 'fannau digyswllt' o ran data symudol - dros dro o leiaf.

Mae'r rhwystrau presennol mewn perygl o gael eu hamlygu gan y newidiadau hyn i'r seilwaith a'r dyluniad gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan y diwydiant oni bai ein bod yn cymryd camau rhagweithiol nawr. Nid yw'r DU wedi cael budd o ymgyrch wybodaeth genedlaethol o'r math a ddefnyddir yn Awstralia i liniaru effeithiau. Yn hytrach, mae cyfathrebiadau yn cael eu cyflwyno ar sail ranbarthol yn y DU. Mae hyn yn golygu na fydd rhwydwaith cymorth unigolyn agored i niwed, fel teulu a ffrindiau, o reidrwydd yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'w gysylltiad os nad ydynt yn yr un ardal ddaearyddol.

Roedd tua un rhan o bump (22%) o berchnogion llinellau tir wedi helpu rhywun nad oeddent yn byw gyda nhw mewn perthynas â ffôn llinell dir y person hwnnw. Yn ein hastudiaeth omnibws, roedd 12% o bobl heb linell dir eu hunain gartref wedi helpu pobl eraill gyda rhyw elfen o ddefnydd llinell dir y person hwnnw. O'r rhain, roedd 37% yn helpu rhywun gyda gwasanaeth teleofal. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod angen i'r cyfathrebu am fudo i VOIP fod wedi'i anelu at y boblogaeth gyffredinol ac nid at berchnogion llinell dir sy'n benodol i ranbarth yn unig. Mae darparwyr telegyfathrebiadau bellach wedi llofnodi Siarter sy'n ymrwmo i gyfres o fesurau sydd â'r bwriad o ddiogelu aelwydydd agored i niwed - gan gynnwys gwiriadau ôl-weithredol ar aelwydydd sydd wedi mudo drwy rym i weld a oes ganddynt deleofal nad yw darparwyr telegyfathrebiadau yn ymwybodol ohono.

Nid oes un ateb syml, addas at bob diben i'r materion hyn ac mae'r ymrwymadau gan y diwydiant i'w croesawu'n fawr - ond yn anffodus nid ydynt yn mynd yn ddigon pell. Nid ydynt yn mynd i'r afael â'r mater bod defnyddwyr yn dewis mudo pan nad ydynt yn gwbl ymwybodol o oblygiadau mudo, ac maent yn parhau i hepgor ymgyrch gyfathrebu genedlaethol, un o'r opsiynau symlaf sydd ar gael i rymuso defnyddwyr a'u rhwydwaith cymorth. Ein barn ni, ar sail ymchwil helaeth ymysg defnyddwyr, yw bod risg uchel i ddiogelwch y cyhoedd o hyd, gan gynnwys marwolaethau.

Rydym yn dal yn sicr bod angen ymgyrch gyfathrebu ehangach ynghylch y newid hwn sy'n cael ei arwain gan y diwydiant. Rydym wedi croesawu ymgysylltiad y diwydiant ar y mater hwn ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio i ddylanwadu ar newid, ynghyd â'r Hybiau Eiriolaeth Defnyddwyr a Rhanddeiliaid

Cenedlaethol, Ofcom, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a rhanddeiliaid llywodraeth ddatganoledig.

Dull Gweithredu

Prif arolwg: Cynhaliodd Yonder gyfanswm o 6,140 o gyfweiliadau yn 2024.

Roedd yr holl ymatebwyr yn berchnogion llinell dir yn y DU ac yn 18 oed a hŷn. 5,640 o gyfweiliadau ar-lein, 28 Chwefror - 11 Mawrth. 500 o gyfweiliadau CATI (dros y ffôn), 24 Chwefror - 10 Mawrth.

Omnibws: Yn 2024, cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd drwy omnibws ar-lein y DU Yonder er mwyn cael safbwynt gynrychioladol genedlaethol ehangach*: 2,110 o gyfweiliadau omnibws yn y DU (dros y ffôn), 1-3 Mawrth.

Mae'r data wedi cael ei bwysoli yn ôl proffil hysbys y DU gan ddefnyddio'r un pwysoliadau â 2023* (er mwyn gallu cymharu), yn seiliedig ar oedran, rhyw, rhanbarth swyddfa'r llywodraeth, graddfa gymdeithasol, ethnigrwydd, trefol/gwledig, a chyflwr/anabledd.

Prif Ganfyddiadau

- Er bod gan lai o gartrefi linell dir, mae'n bell o ddiflannu o gartrefi rheini sy'n ei defnyddio. Mae dros hanner y perchnogion llinell dir (58%) yn defnyddio llinell dir i wneud galwadau gartref, yn enwedig pobl hŷn a phobl anabl/pobl â chyflyrau iechyd tymor hir.
- Er bod yn well gan ddwy ran o dair o berchnogion llinellau tir ddefnyddio ffôn symudol yn hytrach na llinell sefydlog ar gyfer galwadau gartref, mae gan linellau tir rôl bwysig o hyd ar gyfer is-adran o'r boblogaeth (65 oed a hŷn a phobl anabl/pobl â chyflyrau iechyd tymor hir).
- Roedd y rhan fwyaf o berchnogion llinellau tir (85%) wedi defnyddio'r llinell yn ystod y 12 mis diwethaf, yn enwedig pobl sy'n byw yng Nghymru, pobl 65 oed a hŷn, neu bobl anabl/pobl â chyflyrau iechyd tymor hir.
- Mae un rhan o bump (21%) o berchnogion llinellau tir dal yn defnyddio ffôn â chebl, a 9% yn defnyddio ffonau â chebl a ffonau di-wifr. Ar hyn o bryd, mae hyn yn eu galluogi i wneud galwadau yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan.
- Mae gan un o bob deg (11%) ddyfais sy'n gysylltiedig â'u llinell dir. Gwelir mai larwm lladron yw'r ddyfais mwyaf cyffredin, ac yna teleofal (4%) a larymau meddygol (2%).
- Mae hanner y rheini sydd â dyfeisiau wedi'u cysylltu (49%) wedi rhoi gwybod i'w darparwr.
- Roedd y rhan fwyaf o berchnogion llinellau tir hefyd yn berchen ar ffôn symudol - ond nid pob un. Dywedodd pump y cant (5%) o bobl 65 oed a hŷn, 4% o bobl mewn aelwydydd DE a 5% o bobl yn byw ar eu pen eu hunain nad oedd ganddynt ffôn symudol. Dywedodd saith y cant (7%) o bobl eu bod yn defnyddio gwasanaeth ffôn symudol 3G. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i weithredwyr symudol ddechrau'r broses o ddiffodd 3G.
- Mae pobl sydd heb signal symudol da dan do (6% ar gyfartaledd) yn fwy tebygol

o fod yng Nghymru (12%), Gogledd Iwerddon (10%), y De Orllewin Lloegr (10%) ac yn gyffredinol mewn lleoliadau gwledig (8%).

➤ Mae dros dri chwarter y defnyddwyr llinell dir (77%) wedi clywed am y newid i VOIP erbyn hyn, ond nid yw pawb sydd wedi clywed am VOIP yn gwybod beth mae'n ei olygu iddyn nhw (31%).

➤ Roedd tua un rhan o bump (22%) o berchnogion llinellau tir, ac 14% o bobl yn ein hastudiaeth omnibws, wedi helpu rhywun nad oeddent yn byw gyda nhw mewn perthynas â ffôn llinell dir y person hwnnw. Roedd telefol gan oddeutu dwy ran o bump o'r bobl hyn a oedd yn cael help gan eraill (a nodwyd gan 38% o 'gefnogwyr' perchnogion llinell dir a 42% o'r sampl omnibws o 'gefnogwyr').

➤ Yn ein hastudiaeth omnibws, roedd 12% o bobl heb linell dir eu hunain gartref wedi helpu pobl eraill gyda rhyw elfen o ddefnydd llinell dir y person hwnnw. O'r rhain, roedd 37% yn cefnogi rhywun gyda theleofal. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod angen i'r cyfathrebu am fudo i VOIP fod wedi'i anelu at y boblogaeth gyffredinol ac nid at berchnogion llinell dir yn unig.

➤ Mae gan dros ddwy ran o dair o ddefnyddwyr llinell dir brofiad diweddar o doriad yn y cyflenwad trydan (69%). Mae toriadau hirach yn broblem benodol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

➤ Roedd y rheini a oedd wedi ffonio i holi am rywun yn ystod toriad diweddar yn y cyflenwad trydan yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (13%) o fod yn yr Alban (12%) neu Ogledd Iwerddon (22%), yn ogystal â bod yn 18-34 oed (26%) neu o gefndir grŵp lleiafrifoedd ethnig (32%).

➤ Roedd y rheini a oedd wedi galw am help yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (4%) o fod yn 18-34 oed (14%) neu o gefndir grŵp lleiafrifoedd ethnig (20%).

➤ Er bod yn well gan ddwy ran o dair (65%) ffôn symudol ar gyfer galwadau brys yn y cartref, mae 33% yn ffafrio defnyddio llinell dir, yn cynnwys pobl dros 65 (50%) pobl mewn lleoliad gwledig (36%) neu bobl anabl/sydd â chyflwr iechyd tymor hir (37%).

➤ Mae'r rheini sy'n ffafrio llinell dir ar gyfer galwadau brys yn fwyaf tebygol o ddweud mai'r rheswm am hynny yw bod llinellau tir yn haws eu defnyddio (61%) sy'n arbennig o bwysig i bobl hyn (72%).

➤ Mewn argyfwng, dywed dros hanner y byddent yn ffonio'r gwasanaethau brys (55%), ac yna 35% yn dweud y byddent yn ffonio partner/teulu.

➤ Mae pobl dros 65 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddewis llinellau tir a dweud eu bod yn bwysig. Ymysg y rheini sydd â dyfeisiau wedi'u cysylltu â'r llinell dir, mae llai na'r cyfartaledd wedi rhoi gwybod i ddarparwyr. Er bod pobl dros 65 oed yn ymwybodol i raddau helaeth o'r newid i VOIP, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd yn ansicr beth mae angen iddynt ei wneud. Mewn argyfwng, mae llinellau tir yn cael eu ffafrio.

➤ Mae cyfran uwch o bobl sy'n ffafrio llinellau tir mewn ardaloedd gwledig nag ardaloedd trefol, er nad yw llinellau tir yn fwy cyffredin. Mae pryderon ynghylch toriad yn y cyflenwad trydan yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig, fel sy'n wir am ddefnyddio'r llinell dir mewn argyfwng.

➤ Ni wnaeth cyfran sylweddol o bobl a oedd wedi mudo'n barod ddweud y

gofynnwyd ystod o gwestiynau perthnasol iddynt (41%). Y peth mwyaf cyffredin oedd gofyn a oedd ganddynt ffôn symudol- 33%.

Dyfeisiau a ddefnyddir i wneud galwadau yn y cartref

Er bod gan lai o gartrefi llinell dir, mae'n bell o ddiflannu o gartrefi rheini sy'n ei defnyddio. Mae dros hanner perchnogion llinell dir yn defnyddio llinell dir i wneud galwadau gartref, yn enwedig pobl hŷn a phobl anabl/pobl â chyflyrau iechyd tymor hir.

Dyfais a ffefrir i wneud galwadau yn y cartref

Er bod yn well gan ddwy ran o dair o berchnogion llinellau tir ddefnyddio ffôn symudol yn hytrach na llinell sefydlog ar gyfer galwadau gartref, mae gan llinellau tir rôl bwysig o hyd ar gyfer is-adran o'r boblogaeth (65 oed a hŷn a phobl anabl/pobl â chyflyrau iechyd tymor hir).

Defnydd o linell dir

Roedd y rhan fwyaf o berchnogion llinellau tir (85%) wedi defnyddio'r llinell yn ystod y 12 mis diwethaf, yn enwedig pobl sy'n byw yng Nghymru, pobl 65 oed a hŷn, neu bobl anabl/pobl â chyflyrau iechyd tymor hir. Math presennol o ffôn - ffôn â chebl/di-wifr ac ati. Mae un rhan o bump (21%) o berchnogion llinellau tir dal yn defnyddio ffôn â chebl, a 9% yn defnyddio ffonau â chebl a ffonau di-wifr. Ar hyn o bryd, mae hyn yn eu galluogi i wneud galwadau yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan.

Dyfeisiau wedi'u cysylltu â llinell dir

Mae gan un o bob deg (11%) ddyfais sy'n gysylltiedig â'u llinell dir. Gwelir mai larwm lladron yw'r ddyfais mwyaf cyffredin, ac yna teleofal a larymau meddygol.

Darparwyr sy'n ymwybodol o ddyfeisiau wedi'u cysylltu - Mae hanner y rheini sydd â dyfeisiau wedi'u cysylltu (49%) wedi rhoi gwybod i'w darparwr.

Rhwydwaith symudol - Roedd y rhan fwyaf o berchnogion llinellau tir hefyd yn berchen ar ffôn symudol - ond nid pob un. Dywedodd pump y cant (5%) o bobl 65 oed a hŷn, 4% o bobl mewn aelwydydd DE a 5% o bobl yn byw ar eu pen eu hunain nad oedd ganddynt ffôn symudol. Dywedodd saith y cant (7%) o bobl eu bod yn defnyddio gwasanaeth ffôn symudol 3G. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i weithredwyr symudol ddechrau'r broses o ddiffodd 3G.

Ansawdd y signal symudol dan do - Mae pobl sydd heb signal symudol da dan do yn fwy tebygol o fod yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, y De Orllewin ac yn gyffredinol mewn lleoliadau gwledig.

Ymwybyddiaeth o VOIP

Mae dros dri chwarter y defnyddwyr llinell dir wedi clywed am y newid i VOIP erbyn hyn, ond nid yw pawb sydd wedi clywed am VOIP yn gwybod beth mae'n ei olygu iddyn nhw. Ymwybyddiaeth o VOIP ymysg pobl sy'n helpu eraill. Roedd tua un

rhan o bump (22%) o berchnogion llinellau tir, ac 14% o bobl yn ein hastudiaeth omnibws, wedi helpu rhywun nad oeddent yn byw gyda nhw mewn perthynas â ffôn llinell dir y person hwnnw.

Mae telefol gan oddeutu dwy ran o bump o'r bobl hyn sy'n cael eu cefnogi gan 8 arall (a nodwyd gan 38% o 'gefnogwyr' perchnogion llinell dir a 42% o'r sampl omnibws o 'gefnogwyr'). Yn yr astudiaeth omnibws, roedd 12% o bobl heb linell dir eu hunain gartref wedi helpu pobl eraill gyda rhyw elfen o ddefnydd llinell dir y person hwnnw. O'r rhain, roedd 37% yn helpu rhywun gyda gwasanaeth teleofal. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod angen i'r cyfathrebu am fudo VOIP fod wedi'i anelu at y boblogaeth gyffredinol ac nid at berchnogion llinell dir yn unig.

Toriadau yn y cyflenwad trydan - nifer a hyd

Mae gan dros ddwy ran o dair o ddefnyddwyr llinell dir brofiad diweddar o doriad yn y cyflenwad trydan. Mae toriadau pŵer hirach yn broblem benodol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Galwadau yr oedd angen eu gwneud yn ystod toriad diweddar yn y cyflenwad trydan

Roedd y rheini a oedd wedi ffonio i holi am rywun yn ystod toriad diweddar yn y cyflenwad trydan yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (13%) o fod yn yr Alban (18%) neu Ogledd Iwerddon (22%), yn ogystal â bod yn 18-34 oed (26%) neu o gefndir grŵp lleiafrifoedd ethnig (32%).

Roedd y rheini a oedd wedi galw am help yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (4%) o fod yn 18-34 oed (14%) neu o gefndir grŵp lleiafrifoedd ethnig (20%).

Pa ddyfais y byddai pobl yn ei defnyddio i wneud galwad mewn argyfwng

Er bod yn well gan ddwy ran o dair ffôn symudol ar gyfer galwadau brys yn y cartref, mae pobl dros 65, pobl mewn lleoliadau gwledig neu bobl anabl/sydd â chyflwr iechyd tymor hir yn ffafrio defnyddio llinell dir.

Rhesymau dros ddewis defnyddio'r ddyfais honno mewn argyfwng

Mae'r rheini sy'n ffafrio llinell dir ar gyfer galwadau brys yn fwyaf tebygol o ddweud mai'r rheswm am hynny yw bod llinellau tir yn haws eu defnyddio (61%) sy'n arbennig o bwysig i bobl hŷn (72%).

Pwy fyddai pobl yn ei ffonio mewn argyfwng

Mewn argyfwng, dywed dros hanner y byddent yn ffonio'r gwasanaethau brys, ac yna 35% yn dweud y byddent yn ffonio partner/teulu.

Profiad defnyddwyr hŷn

Mae pobl dros 65 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddewis llinellau tir a dweud eu bod yn bwysig. Ymysg y rheini sydd â dyfeisiau wedi'u cysylltu â'r llinell dir,

mae llai na'r cyfartaledd wedi rhoi gwybod i ddarparwyr. Er bod pobl dros 65 oed yn ymwybodol i raddau helaeth o'r newid i VOIP, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd yn ansicr beth mae angen iddynt ei wneud. Mewn argyfwng, mae llinellau tir yn cael eu ffafrio.

Profiad defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig

Mae cyfran uwch o bobl sy'n ffafrio llinellau tir mewn ardaloedd gwledig nag ardaloedd trefol, er nad yw llinellau tir yn fwy cyffredin. Mae pryderon ynghylch toriad yn y cyflenwad trydan yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig, fel sy'n wir am ddefnyddio'r llinell dir mewn argyfwng.

Yr hyn y mae pobl eisiau ei wybod am fudo i VOIP

Wrth ystyried mudo i VOIP, y cwestiynau allweddol gan bobl oedd: a fydd yn effeithio ar fy miliau, a allaf gadw fy rhif, ac a fydd fy ffôn yn gweithio yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan. Roedd pryderon/cwestiynau hefyd yn amrywio yn ôl rhanbarth, yn ôl oedran/ethnigrwydd ac yn dibynnu os oedd pobl wedi clywed am y mudo.

Cwestiynau a ofynnwyd i rai sy'n mudo i VOIP

Ni wnaeth cyfran sylweddol o bobl a oedd wedi mudo'n barod ddweud y gofynnwyd ystod o gwestiynau perthnasol iddynt (41%). Y cwestiwn mwyaf cyffredin oedd gofyn a oedd ganddynt ffôn symudol - 33%